Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru

# Penodi Cadeirydd

## Rôl y Cadeirydd

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr ar gyfer swydd Cadeirydd Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru.

Mae Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru, a sefydlwyd yn 2002, yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau, a hynny mewn modd effeithiol, effeithlon a thryloyw.

Byddwch yn meddu ar y gallu i siapio'r agenda rheoli meddyginiaethau yng Nghymru, a byddwch yn gyfrifol am gyflawni'r ymrwymiadau allweddol yn llythyr cylch gwaith Gweinidogion Cymru sef:

- Sicrhau gwell canlyniadau i gleifion
- Lleihau niwed a gwella diogelwch meddyginiaethau
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth

Bydd gennych rôl allweddol o ran gweithredu strategaeth ragnodi'r Grŵp**,** gan roi cyfeiriad strategol i'r GIG yng Nghymru a'r holl randdeiliaid allweddo o ran rheoli meddyginiaethau.

Ydych chi'n meddu ar y sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol i fwrw ymlaen â rheoli newid?  Oes gennych chi ddiddordeb yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sut mae'n gweithredu yng Nghymru, a gwybodaeth am y maes, ynghyd â gwybodaeth fanwl am faterion fferyllol sy'n effeithio ar gleifion?

Ydych chi'n gyfathrebwr argyhoeddiadol sy'n gallu cadeirio cyfarfodydd yn effeithiol a chefnogi datblygiad pwyllgorau? Oes gennych chi dystiolaeth eich bod yn gallu darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol ac amlwg?

Os felly, hoffem glywed gennych.

**Tâl cydnabyddiaeth** – Swydd ddigyflog yw hon ond bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus yr hawl i gael tâl cydnabyddiaeth o £337 y dydd.

**Ymrwymiad amser** – Bydd disgwyl i'r Cadeirydd fod ar gael i weithio o leiaf 30 diwrnod y flwyddyn gan y bydd y Grŵp yn cyfarfod o leiaf 10 gwaith y flwyddyn.

Bydd hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd misol Pwyllgor Llywio'r Grŵp a chyfarfodydd ad hoc eraill yn ôl yr angen

**Cyfnod** - Bydd hwn yn benodiad am gyfnod cychwynnol o 4 blynedd ar ôl y dyddiad penodi.

**Lleoliad** – Mae hon yn swydd ar gyfer Cymru gyfan, er y disgwylir i ddeiliad y swydd weithio yng Nghaerdydd am rywfaint o'r amser, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau teithio. Fodd bynnag, caiff weithio o unrhyw leoliad ond bydd gofyn bod yn barod i deithio ledled Cymru i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau.

**Y broses ymgeisio**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **dydd Llun 12 Gorffennaf 2021 am 4pm.**

Ni chaiff ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried. Disgwylir y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal fis Medi 2021. .

I gael rhagor o fanylion ac i wneud cais, ewch i https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus  neu os oes gennych ymholiadau e-bostiwch penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi o hyrwyddo cyfle cyfartal a'i ymgorffori ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys penodiadau i gyrff cyhoeddus.  Croesewir ac anogir ceisiadau gan bob grŵp, a byddwn yn sicrhau na chaiff unrhyw ymgeisydd sy'n gymwys i ymgymryd â swydd gyhoeddus ei drin yn llai ffafriol oherwydd oedran, anabledd, rhywedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd a mamolaeth. Cedwir at egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a phenodir ar sail teilyngdod.

Gellir cael fersiwn print bras, Braille neu sain o'r hysbyseb hon drwy gysylltu â'r rhif 03000 255454

The Commissioner for Public Appointments

Llywodraeth Cymru
Welsh Government